WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tachwedd 2010
www.wao.gov.uk

# Y Newyddion Diweddaraf am Raglen Waith Swyddfa Archwilio Cymru

## Papur briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Datblygu rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru | 5 |
| Egwyddorion craidd | 5 |
| Cynigion ar gyfer astudiaethau gwerth am arian newydd | 6 |
| Cynnal rhaglen waith gytbwys | 10 |

# Cyflwyniad

1 Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2010, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar bynciau i'w cynnwys yn ei rhaglen o astudiaethau cenedlaethol yn y dyfodol[1]. Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n dilyn y rhestr hir o bynciau a drafodwyd gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (sef y Pwyllgor Archwilio bryd hynny) ym mis Hydref 2009.

2 Datblygwyd y rhestr o bynciau posibl a nodwyd o fewn yr ymgynghoriad drwy gyfuniad o waith parhaus Swyddfa Archwilio Cymru o fonitro datblygiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ystyriaeth o'r gwaith a gynhaliwyd gan gyrff archwilio eraill y DU, neu eu gwaith arfaethedig, a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol.

3 Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i helpu i lywio'r broses o flaenoriaethu gwaith yn y dyfodol mewn tri maes craidd o raglen Swyddfa Archwilio Cymru:

- archwiliadau gwerth am arian (a gefnogir gan yr arian canolog a roddir i Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol);
- astudiaethau llywodraeth leol;
- gwaith archwilio perfformiad lleol yn y GIG.

4 Cafwyd 30 o ymatebion ar wahân i'r ymgynghoriad gan gyfuniad o gyrff sector cyhoeddus, sefydliadau cynrychioliadol eraill ac unigolion. Nid yw'n annisgwyl bod yr ymgynghoriad wedi denu rhai ymatebion gwrthdrawiadol ar werth neu amseriad rhai cynigion penodol, yn ogystal â nodi pynciau ychwanegol sy'n peri pryder i ymatebwyr unigol. Serch hynny, roedd yr ymatebion sylfaenol gan sawl sefydliad sector cyhoeddus a grwpiau cynrychioliadol yn ymwneud â dau bwynt a oedd yn peri pryder:

- yr angen i Swyddfa Archwilio Cymru ddangos bod ei gwaith yn ychwanegu gwerth, a'i bod wedi'i halinio'n dda i'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, yn benodol y cyfyngiadau presennol ar wariant cyhoeddus;
- yr angen i osgoi dyblygu ymdrechion gyda chyrff adolygu eraill a sicrhau bod ein gwaith wedi'i alinio â hyn ac yn ystyried mentrau lleol a chenedlaethol eraill.

1 www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/studies_consultation_march_2010.pdf

# Datblygu rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru

## Egwyddorion craidd

5 Mae strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2009-2012, sef *Effaith Barhaus mewn Adeg o Newid*[2], yn nodi chwe thema strategol a gynlluniwyd i danategu holl waith y sefydliad yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal â'r ddwy thema sy'n canolbwyntio ar ein rôl o gefnogi rhaglen diwygiadau'r GIG a gweithredu'r Mesur Llywodraeth Leol, nododd y strategaeth y byddai ein gwaith yn gwneud y canlynol:

- helpu cyrff yng Nghymru i wella'u defnydd o adnoddau o fewn cyfyngiadau cynyddol yr economi a'r amgylchedd;
- hyrwyddo cymariaethau gwell, data perfformiad clir, ac adroddiadau hygyrch i'r rhai sy'n penderfynu a dinasyddion;
- hyrwyddo canlyniadau gwell i ddinasyddion drwy weithio ar draws ffiniau i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio, eu darparu a'u hadolygu; a
- chefnogi'r broses o roi strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar waith yn uniongyrchol a thrwy eraill.

6 Bydd angen adolygu'r strategaeth honno maes o law, yn enwedig o ran yr heriau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn y cyfamser, fy mhryder personol yw y dylai rhaglen astudiaethau Swyddfa Archwilio Cymru:

- ganolbwyntio ar faterion cyfoes, er enghraifft herio'r sector cyhoeddus i sicrhau gwell effeithlonrwydd tra hefyd nodi ffyrdd o wella gwasanaethau i'r cyhoedd;
- ceisio, lle y bo'n bosibl, rhoi darlun o'r ffordd y mae Cymru'n cymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, neu wledydd tramor;
- cynnwys ffocws ar ymyriadau polisi a darparu polisïau a anelwyd at bobl sy'n agored i niwed;
- ystyried y dyfodol, ac anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cenedlaethau'r dyfodol; a
- helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddysgu gwersi o'r dyfodol a llywio'r gwaith o ddatblygu a darparu polisïau yn y dyfodol.

7 Eisoes ceir enghreifftiau o Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid allweddol ac arbenigwyr wrth gwmpasu astudiaethau cenedlaethol a chyflwyno adroddiadau arnynt, er enghraifft drwy ddefnyddio paneli o arbenigwyr. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i fynd â hyn ymhellach ac ystyried cyfleoedd i ddefnyddio arbenigwyr allanol i gefnogi staff Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol yr astudiaethau hyn. Gallai hyn olygu y byddwn yn contractio sefydliadau allanol i helpu i gyflawni ein gwaith yn amlach, er enghraifft sefydliadau addysgol. Rwyf hefyd yn bwriadu chwilio am gyfleoedd i ddod â mwy o staff i mewn i'r sefydliad ar secondiadau byrdymor.

2 www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/WAO_strategy_eng.pdf

8 Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd yn angenrheidiol i newid y ffordd o feddwl a dull gweithredu o ran sut y caiff astudiaethau unigol eu cynllunio, eu rheoli a sut y darperir adnoddau ar eu cyfer.

## Cynigion ar gyfer astudiaethau gwerth am arian newydd

9 Wrth benderfynu ar flaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer astudiaethau'r dyfodol, rwyf yn ystyriol o faint o waith sy'n mynd rhagddo neu waith arfaethedig a fabwysiadwyd gennyf (Ffigur 1). Mae angen i mi sicrhau bod cydbwysedd priodol o adnoddau i helpu i gyflawni'r gwaith hwn yn amserol, ac ar yr un pryd i ddechrau gwaith arall fel bod llif cyson o ddeunydd i gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Fel y nodais yn fy *Amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2011*, rwyf yn bwriadu ymgymryd â'r un lefel o weithgarwch a gwasanaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i ddisgwyl dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n dibynnu ar raddfa gymharol ein prosiectau gwahanol.

10 Mae'r gwaith a nodwyd yn Ffigur 1 yn cynnwys pedwar darn o waith y mae Swyddfa Archwilio Cymru, ers lansio'i ymgynghoriad cyhoeddus, wedi penderfynu eu datblygu:

- adroddiad ar dai ar gyfer oedolion sydd ag anghenion iechyd meddwl, i'w gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr - defnyddio tystiolaeth benodol o'r adolygiad dilynol ehangach o wasanaethau iechyd meddwl oedolion;

**Ffigur 1 – Gwaith sy'n mynd rhagddo neu waith arfaethedig**

| Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng nawr a diwedd Mawrth 2011 |
|---|
| Prosiectau trafnidiaeth mawr |
| Tai i oedolion sydd ag anghenion iechyd meddwl (crynodeb o waith lleol) |
| Contract TGCh Merlin - gwaith dilynol |
| Hysbysu gofal iechyd |
| Gwasanaethau iechyd meddwl oedolion - gwaith dilynol (crynodeb o waith lleol) |
| Rheoli grantiau |
| Arlwyo mewn ysbytai (crynodeb o waith lleol) |
| **I'w gyhoeddi o fis Mai 2011 ymlaen** |
| Arian Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd 2007-2013 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| Cynllunio at argyfwng - argyfyngau sifil posibl |
| Addysg plant sy'n derbyn gofal |
| Gwireddu buddiannau yn sgîl gweithredu'r contract meddygon ymgynghorol (crynodeb o waith lleol) |
| Arloesedd ac effeithlonrwydd: Darlun o wasanaethau cyhoeddus II |
| Safon Ansawdd Tai Cymru |
| Adolygiad o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Cyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu a chompostio |
| Gofal iechyd parhaus |
| Maeth mewn ysgolion |
| Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 |

- adolygiad o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru - a ddechreuwyd ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a bydd yn dechrau cyn diwedd y flwyddyn galendr hon;
- adroddiad trosolwg a gwaith arfer da ychwanegol mewn perthynas â rheoli grantiau - datblygwyd y gwaith hwn fel ymateb i'r materion a amlygwyd mewn nifer o'n hadroddiadau diweddar, a dylid bod wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol; a
- gwaith pellach sy'n canolbwyntio ar arloesedd ac effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys yr hyn sy'n deillio o arfer da ac ail adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus - caiff y gwaith hwn ei lywio gan staff Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddynt arsylwi a gwneud sylwadau ar ddatblygiadau drwy Raglen a Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi Llywodraeth y Cynulliad.

11 Rwyf yn awyddus i ystyried effaith Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chanlyniadau etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2011 cyn ymrwymo i raglen waith newydd ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth arall - er enghraifft o gyfranogi yn y Rhaglen a'r Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi - rwyf wedi nodi pedwar pwnc fel fy newis flaenoriaethau ar gyfer gwaith newydd i ddechrau cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Y pedwar pwnc yw: caffael yn y sector cyhoeddus, rheoli meddygyniaeth, pobl ifanc nad ydynt yn cael addysg, wedi'u cyflogi neu'n cael eu hyfforddi a strategaeth ad-leoli Llywodraeth y Cynulliad (Ffigur 2).

12 Rwyf yn awyddus i ystyried yn fanylach:

a Y cyfle i gynnal astudiaeth ar gymorth y sector cyhoeddus i'r trydydd sector a'r graddau y mae'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â'r trydydd sector, er y bydd yn ddiddorol yn gyntaf i ystyried effaith yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar ddyraniadau cyllideb yn y dyfodol. Gall pwysau ariannol arwain at leihad yn y cymorth ariannol i gyrff sector gwirfoddol ond, i'r gwrthwyneb, gallai fod yn sbardun i'r sector statudol edrych i'r trydydd sector i helpu i ddarparu gwasanaethau.

b Gwaith posibl yn y dyfodol ar gynnydd o ran Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, er eto y bydd yn ddiddorol yn gyntaf i ystyried dyraniadau cyllideb trafnidiaeth yn y dyfodol yn sgîl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, yn ogystal â'r materion a allai ddod i'r amlwg o ystyriaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o'n hadroddiad arfaethedig ar brosiectau trafnidiaeth mawr.

c Y posibilrwydd y gallai Swyddfa Archwilio Cymru ddefnyddio'i chyrhaeddiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru i gefnogi'r broses o nodi a lledaenu arfer da mewn perthynas ag ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau. Heb ymgysylltu effeithiol, gallai cyrff cyhoeddus gael anhawster i gyflawni'r newidiadau trawsnewidiol y bydd eu hangen fel rhan o'u hymateb i'r heriau ariannol presennol.

**Ffigur 2 – Cynigion ar gyfer astudiaethau gwerth am arian newydd**

| Pwnc | Manylion |
|---|---|
| Caffael sector cyhoeddus | Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario £5 biliwn bob blwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau. Byddai'r gwaith hwn yn asesu ymddygiad caffael sefydliadau unigol a'r arbedion a gyflawnir drwy well arferion caffael. Byddai'r adolygiad hefyd yn ystyried effeithiolrwydd is-adran Gwerth Cymru Llywodraeth y Cynulliad i helpu sefydliadau i sicrhau gwelliannau cynaliadwy o ran caffael. Rwyf hefyd yn awyddus i'r adolygiad hwn ystyried p'un a yw prosesau caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn hygyrch i'r sector preifat o gymharu â phrosesau tebyg mewn mannau eraill yn y DU.<br>Ceir cyfleoedd i ddefnyddio gwaith tebyg a gynhaliwyd gan Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ystyried y materion a godwyd gan adolygiad diweddar Syr Philip Green o wariant Llywodraeth y DU. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru eisoes wedi bod yn trafod cwmpas posibl y gwaith hwn gyda Gwerth Cymru a Bwrdd Caffael y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi. |
| Rheoli meddyginiaethau | Rhagnododd meddygon teulu yn unig werth dros hanner biliwn o bunnoedd o eitemau ar bresgripsiwn (ac mewn rhai achosion, meddygon teulu a'u dosbarthodd hefyd), gan gynnwys meddyginiaethau, yn 2008-09. Nododd ein papur ymgynghori y byddai sicrhau defnydd diogel, effeithiol a darbodus o feddyginiaethau yn her allweddol i'r byrddau iechyd newydd. Byddai'r archwiliad hwn yn nodi'r cyfle i sicrhau gwelliannau o ran cost ac ansawdd yn nhrefniadau rheoli meddyginiaethau'r GIG, gan ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau rhagnodi yng Nghymru.<br>Byddai'r astudiaeth hon yn datblygu ar sail gwaith archwilio lleol a wnaed eisoes ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi bwrdd y rhaglen genedlaethol a sefydlwyd i ddatblygu dull y GIG o reoli meddyginiaethau. |
| Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried ymdrechion gwasanaethau cyhoeddus Cymru i wella canlyniadau i bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yr amcangyfrifir bod 68,800 ohonynt yng Nghymru. Bydd cwmpasu manwl o'r gwaith hwn yn ystyried yr opsiynau o ran edrych y tu hwnt i'r dimensiwn addysg neu hyfforddiant penodol i gynnwys materion sy'n ymwneud â dadrithiad a datgysylltiad cymunedol neu gyfiawnder ieuenctid. Gall hefyd fod cyfleoedd i ystyried materion sy'n ymwneud â chyfranogiad a chwblhau mewn addysg uwch ac addysg bellach (nodwyd cyfranogiad mewn addysg uwch fel pwnc ynddo'i hun yn y ddogfen ymgynghori ddiweddar). Byddai'r gwaith hwn yn ystyried yr adroddiad a'r argymhellion diweddar ar y pwnc hwn gan Bwyllgor Menter a Dysgu Llywodraeth y Cynulliad ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad hwnnw. |
| Strategaeth adleoli Llywodraeth y Cynulliad | Fel ei archwilydd allanol, rwyf yn awyddus i gadw ffocws o fewn fy rhaglen o archwiliadau gwerth am arian ar bynciau sy'n ymwneud â gweinyddiad mewnol Llywodraeth y Cynulliad. Gydag adeiladau newydd Llywodraeth y Cynulliad ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno bellach ar agor, credaf mai nawr yw'r amser i ystyried p'un a yw nodau ac amcanion y strategaeth adleoli a ategir gan yr adeiladau hyn yn cael eu gwireddu, yn erbyn asesiad o gost gyffredinol adleoli. |

13 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru rôl hanfodol ac unigryw i'w chwarae o ran sicrhau rhybudd ac ymyriad cynnar pan fydd pethau'n mynd o chwith o ran llif arian drwy wasanaethau cyhoeddus. O ran hynny, rwyf yn hollol argyhoeddedig o bwysigrwydd ein gwaith archwilio ariannol. Hwn yw'r maes lle mae'n rhaid i bobl Cymru edrych am sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Felly rwyf yn awyddus ein bod yn gwneud mwy i hybu ansawdd ac effaith ein gwaith archwilio ariannol a'n bod yn dwyn mwy o dystiolaeth gerbron y pwyllgor o ran effaith y gwaith hwnnw a'r hyn sy'n deillio ohono. Er enghraifft, gwn fod y pwyllgor wedi ystyried, yn y gorffennol, adroddiadau ar gyllid GIG Cymru a chanlyniadau gwaith archwilio ariannol ar draws llywodraeth ganolog. Ceir achos dros gyflawni gwaith tebyg yn y dyfodol i roi sicrwydd bod trefniadau rheoli ariannol yn dderbyniol o ran craffu arnynt wrth i gyrff cyhoeddus ymateb i'r heriau ariannol a wynebir ganddynt ar hyn o bryd.

14 Yn ogystal â sylwadau ynglŷn â'r 35 o bynciau gwahanol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, nododd ymatebion unigol 12 maes pellach o ddiddordeb sy'n ymwneud â:

- rhaglen ddiwygio'r GIG;
- gwerth am arian o ran darparu gwasanaethau cyfleu gwybodaeth;
- arfer gorau o ran gofal integredig;
- cyllidebu ar gyfer plant;
- cludo cleifion y GIG;
- gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion sydd ag anabledd dysgu;
- gwasanaethau cynllunio llywodraeth leol;
- darpariaeth i bobl ifanc;
- gwasanaethau mewn ysbytai ar gyfer pobl hŷn;
- cydweithio rhwng awdurdodau addysg lleol;
- bywyd gwyllt yng Nghymru a thargedau bioamrywiaeth; a
- Pharc Busnes ac Academi Hyfforddiant Amddiffyn RAF Sain Tathan.

15 Er nad yw'r pynciau hyn wedi'u cynnwys o fewn fy mlaenoriaethau byrdymor ar gyfer gwaith newydd, gallai sawl un ymddangos o fewn ein rhaglen waith yn y dyfodol neu ymwneud â gwaith diweddar neu waith sy'n mynd rhagddo ar lefel genedlaethol neu leol. Er enghraifft, gallai'r cwestiwn o werth am arian o ran darparu gwasanaeth cyfleu gwybodaeth fod yn rhan o'n gwaith ar gaffael sector cyhoeddus. Hefyd, mae ein timau archwilio lleol yn cwblhau ymarfer 'asesiad strwythuredig i asesu p'un a oes gan gyrff y GIG, yng nghyd-destun diwygio'r GIG, y trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'u hadnoddau, ac y'u defnyddir mewn ffordd sy'n arwain at welliannau cynaliadwy mewn gwasanaethau. Byddaf yn ystyried a ddylid cyflwyno adroddiad sy'n rhoi crynodeb o ganlyniadau'r gwaith lleol hwnnw yn gynt.

16 Yn ogystal bu nifer o'r pynciau hyn yn destun adolygiadau diweddar eraill, er enghraifft, bu'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn adolygu'r mater o urddas a pharch mewn ysbytai, ac rydym wedi darparu tystiolaeth o'n gwaith ar arlwyo mewn ysbytai i lywio'r adolygiad hwnnw. O ran RAF Sain Tathan, bydd y Pwyllgor yn cofio iddo gyhoeddi ei adroddiad ei hun ar brosiect y Ddraig Goch ar ddiwedd 2009, a gyfeiriodd at y dyheadau bryd hynny o ran yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn.

## Cynnal rhaglen waith gytbwys

17 Ar y cyfan, mae'r gwaith newydd a nodwyd gennyf, ynghyd â'r gwaith a etifeddwyd gennyf, yn fy marn i, yn rhaglen weddol gytbwys o ran:

- yr egwyddorion craidd a ddisgrifir ym mharagraffau 5 a 6;
- cymysgedd o waith ar draws y sector cyhoeddus cyfan - gan fanteisio ar sefyllfa unigryw Swyddfa Archwilio Cymru - ac astudiaethau sy'n benodol i'r sector ar draws meysydd gwahanol o wariant cyhoeddus;
- canolbwyntio rhai o'n hadnoddau ar waith dilynol i sicrhau y cymerir camau priodol mewn ymateb i'n gwaith archwilio blaenorol, ac adroddiadau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus;
- manteisio ar y cyfle i gyflwyno adroddiadau, fel sy'n briodol, ar ganfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar draws y sector cyhoeddus;
- cynnal gwaith mewn ymateb uniongyrchol i bryderon y cyhoedd; a
- darnau o waith sydd â'r prif ddiben o nodi a lledaenu arfer da a dysgu a rennir.

18 Wrth ddatblygu ac ychwanegu at raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru dros y blynyddoedd i ddod, byddaf yn ceisio cynnal y dull cytbwys hwn. Er mwyn llywio gwaith cynllunio tymor canolig i hirdymor, byddaf yn gofyn i staff Swyddfa Archwilio Cymru gynnal ymarfer asesiad risg newydd yn ystod haf 2011. Yna byddaf yn cynllunio i gyflwyno cynigion newydd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2011. Os penderfynaf yn y cyfamser fwrw ymlaen â gwaith newydd arall neu i gyflwyno adroddiadau eraill sy'n seiliedig ar ein gwaith archwilio lleol, yna byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor o'r datblygiadau hynny.